

Safonau Llyfrgelloedd Cyhoeddus Cymru 2017-2020: Blaenau Gwent (Ymddiriedolaeth Hamdden Aneurin)

Adroddiad Asesu Blynyddol 2018/19

Lluniwyd yr adroddiad hwn ar sail yr wybodaeth a ddarparwyd yn y datganiad blynyddol, yr astudiaethau achos a'r adroddiad naratif a gyflwynwyd gan Blaenau Gwent i Isadran Amgueddfeydd, Archifau a Llyfrgelloedd Llywodraeth Cymru.

1 Crynodeb gweithredol

Mae Blaenau Gwent yn parhau i gyflawni pob un o'r 12 hawl graidd yn llawn.

O'r 10 o ddangosyddion ansawdd sy'n cynnwys targedau, cyflawnodd Blaenau Gwent saith yn llawn, un yn rhannol a methodd â chyflawni dau.

Mae gwasanaethau llyfrgell ym Blaenau Gwent yn cael eu darparu gan Ymddiriedolaeth Hamdden Aneurin ar ran yr awdurdod lleol, a'u nodi fel elfen allweddol o gynlluniau darparu gwasanaethau'r awdurdod lleol a'r Ymddiriedolaeth. Mae'r gwasanaeth yn parhau i gyflawni cryn dipyn dros ei gymunedau lleol, o ystyried ei gapasiti a'i adnoddau, gyda'r perfformiad yn 2018/19 yn parhau ar yr un lefel ar y cyfan, gyda gwelliannau mewn rhai meysydd allweddol; fel mewn blynyddoedd blaenorol, cefnogir y ddarpariaeth yn dda gan waith partneriaeth rhagweithiol a chadarn. Er gwaethaf mwy o fuddsoddiad yn y gwasanaeth eleni, sydd i'w groesawu, erys lefelau staffio ac adnoddau ar lefelau hynod o isel. Mae staffio proffesiynol, gydag un llyfrgellydd cymwysedig yn unig, ar ôl diswyddo gorfodol yr unig ddeiliad swydd arall â chymwysterau, yn achos pryder penodol o ran cadernid a pherfformiad y gwasanaeth. Mae'r adolygiad arfaethedig o'r ddarpariaeth o dan yr Ymddiriedolaeth yn cynnig cyfle i ystyried cyfeiriad ac adnoddau'r gwasanaeth llyfrgell, er mwyn sicrhau ei fod yn barod i fynd i'r afael â blaenoriaethau strategol a pharhau i ddiwallu anghenion ei gymunedau lleol.

- Mae pedair astudiaeth achos yn dangos yn rymus effaith gadarnhaol y gwasanaeth ar ei ddefnyddwyr a chymunedau lleol. Mae gwelliannau yn yr hyfforddiant a ddarperir a'r niferoedd sy'n ei fynychu hefyd yn amlwg, gyda ffocws penodol ar lythrennedd digidol a llythrennedd gwybodaeth.
- Mae nifer y llyfrau a fenthycir wedi cynyddu mewn rhai meysydd, sy'n adlewyrchu'n gadarnhaol ar y buddsoddiad cynyddol mewn llyfrau, ond erys y perfformiad o ran hyn ymhlith yr isaf y pen o'r boblogaeth yng Nghymru.
- Mae'r gwariant ar adnoddau wedi cynyddu yn 2018/19, sydd i'w groesawu, ond mae'n dal i fethu â chyflawni'r targedau o ran hyn (DA 9 a 10) o bell ffordd. Mae lefelau buddsoddi yn y gyllideb ar gyfer deunyddiau yn dal i fod ar y lefel isaf yng Nghymru, ac erys hwn yn faes y dylai'r Ymddiriedolaeth a'r awdurdod lleol ei ystyried yn ofalus.
- Mae lefelau staffio wedi cynyddu ychydig, ond maent yn dal ymhlith yr isaf y pen o'r boblogaeth yng Nghymru, gyda'r gwasanaeth yn dibynnu'n fawr ar staff o feysydd eraill yr Ymddiriedolaeth, y cyngor a sefydliadau partner i helpu i ddarparu gwasanaethau. Mae staffio proffesiynol yn faes sy'n achosi pryder penodol o ran cadernid y gwaith o arwain a chynllunio'r gwasanaeth.

- Bydd adolygiad o'r holl wasanaethau a ddarperir gan Ymddiriedolaeth Hamdden Aneurin yn cael ei gwblhau yn hydref 2019, er mwyn pennu cyfeiriad strategol clir i'r Ymddiriedolaeth yn y dyfodol. Bydd canfyddiadau'r adolygiad hwn yn allweddol i sicrhau cynaliadwyedd y gwasanaeth llyfrgell, a'i allu i ymateb i anghenion lleol.

2 Perfformiad yn erbyn y safonau

Mae'r fframwaith safonau yn cynnwys hawliau craidd, dangosyddion ansawdd â thargedau, dangosyddion ansawdd â meincnodau a mesurau effaith. Mae Adran 2 yn crynhoi'r llwyddiannau yn erbyn y meysydd hyn. Darperir adroddiad naratif o berfformiad yr awdurdod yn Adran 3.

2.1 Hawliau craidd

Mae Blaenau Gwent yn parhau i gyflawni pob un o'r 12 hawl graidd yn llawn, gan roi sylwadau manwl a defnyddiol yn y datganiad ar bob maes a gwmpesir. Mae gwaith gyda phobl ddigartref a grwpiau eraill sydd o dan anfantais gymdeithasol ac sy'n agored i niwed yn dal yn nodwedd gref ar y gwasanaeth a ddarperir, gydag ethos gwasanaeth cwsmeriaid datganedig o 'fynd yr ail filltir'. Mae cymorth marchnata penodol i hyrwyddo gwasanaethau a gweithgareddau'r gwasanaeth llyfrgell, a defnyddir y cyfryngau cymdeithasol i gyrraedd cynulleidfaoedd newydd. Mae cymorth ar gyfer y ddarpariaeth Gymraeg wedi parhau i ddatblygu, gyda grwpiau darllen Cymraeg yn cymryd rhan weithredol yn y broses o ddewis stoc.

2.2 Dangosyddion ansawdd sydd â thargedau

Mae 16 o ddangosyddion ansawdd (DA) yn y fframwaith, a deg ohonynt yn cynnwys targedau. O'r rhain, mae Blaenau Gwent yn cyflawni 7 yn llawn, 1 yn rhannol ac yn methu â chyflawni 2 o'r dangosyddion.

Dangosydd Ansawdd	Cyflawni?	
DA 3 – Cefnogaeth ar gyfer datblygiad unigol		Cyflawni'n llawn
a) Cymorth TGCh	✓	
b) Hyfforddiant sgiliau a llythrennedd gwybodaeth	✓	
c) Cymorth e-lywodraeth	✓	
d) Datblygu darllenwyr	✓	
DA 4 (a) Cefnogaeth ar gyfer iechyd a lles		Cyflawni'n llawn
i) Cynllun Presgripsiwn Llyfrau	✓	
ii) Cynllun Llyfrau Llesol	✓	
iii) Casgliad penodol i iechyd a lles	✓	
iv) Gwybodaeth am ymddygiadau a ffyrdd o fyw	✓	
v) Arwyddbyst at wasanaethau iechyd a lles	✓	
DA 6 – Pob man gwasanaeth sefydlog yn cynnig digwyddiadau/gweithgareddau i ddefnyddwyr sydd â gofynion arbennig	✓	Cyflawni'n llawn
DA 7 – Lleoliad manau gwasanaeth	✓	Cyflawni'n llawn

DA 9 – Deunydd darllen cyfoes a phriodol		Heb ei gyflawni
Derbyniadau y pen o'r boblogaeth	x	
<u>neu</u> Wariant ar ddeunyddiau y pen o'r boblogaeth	x	
DA 10 – Adnoddau Cymraeg		Heb ei gyflawni
% y gyllideb deunyddiau wedi'i gwario ar y Gymraeg	x	
<u>neu</u> Wariant ar y Gymraeg y pen o'r boblogaeth	x	
DA 11 – Mynediad ar-lein:		Cyflawni'n llawn
a) i) Mynediad cyhoeddus i'r Rhyngwrwyd	✓	
ii) Darpariaeth Wi-Fi	✓	
DA 12 – Cyflenwi ceisiadau		Cyflawni'n llawn
a) % y ceisiadau wedi'u cyflenwi o fewn 7 diwrnod	✓	
b) % y ceisiadau wedi'u cyflenwi o fewn 15 diwrnod	✓	
DA 13 – Lefelau staffio a chymwysterau:		Cyflawni'n rhannol
i) Staff y pen o'r boblogaeth	x	
ii) Staff cymwysedig y pen o'r boblogaeth	x	
iii) Cymwysterau/hyfforddiant pennaeth y gwasanaeth	✓	
iv) Canran DPP	✓	
DA 16 – Oriau agor y pen o'r boblogaeth	✓	Cyflawni'n llawn

Mae gwasanaeth Blaenau Gwent wedi cynnal ei berfformiad yn ail flwyddyn y chweched fframwaith, heb newid sylweddol o gymharu â 2017/18.

2.3 Mesur effaith

Mae'r fframwaith yn cynnwys tri dangosydd sy'n ceisio asesu'r effaith y mae defnyddio'r gwasanaeth llyfrgell yn ei chael ar fywydau pobl. Nid oes targedau i'r dangosyddion hyn, a dim ond unwaith yn ystod cyfnod tair blynedd y fframwaith y mae gofyn i awdurdodau gynnal arolygon defnyddwyr ar gyfer Dangosyddion Ansawdd 1. Mae'r ffigurau crynhoi isod (isaf, canolrif ac uchaf) felly yn seiliedig ar yr awdurdodau hynny sy'n nodi eu bod wedi cwblhau eu harolygon defnyddwyr yn ystod 2017/18 neu 2018/19. Mae'r safleoedd yn adlewyrchu nifer yr ymatebwyr, ac 1 yw'r awdurdod sydd â'r sgôr uchaf.

Ni chynhaliodd Blaenau Gwent arolwg o ddefnyddwyr yn ystod 2018/19, a bwriedir cynnal arolygon yn hydref 2019.

Dangosydd perfformiad		Safle	Isaf	Canolrif	Uchaf
DA 1 – Gwneud gwahaniaeth					
b) % y plant sy'n meddwl bod y llyfrgell yn eu helpu i ddysgu a chael gwybod pethau:	dd/b		60%	94%	97%
e) % yr oedolion sy'n credu bod y llyfrgell wedi gwneud gwahaniaeth i'w bywydau:	dd/b		38%	88%	95%
DA 5 b) % mynychwyr sesiynau hyfforddi a ddywedodd fod yr hyfforddiant wedi'u helpu i gyflawni eu hamcanion:	97%	=10/20	80%	97%	100%

Gofynnir i awdurdodau hefyd gyflwyno hyd at bedair astudiaeth achos yn disgrifio'r effaith y mae'r gwasanaeth llyfrgell wedi'i chael ar unigolyn neu grŵp o unigolion yn ystod y flwyddyn. Cyflwynodd Blaenau Gwent bedair astudiaeth achos o'r fath:

- Cymorth Cymunedol – gan weithio gyda phartneriaid lleol, mae'r llyfrgell wedi ehangu ei gwasanaethau yng Nghwm, sef cymuned lle mae'r gwasanaethau lleol a ddarperir wedi cael eu cwtdogi. Mae pedair prif fenter newydd – sesiynau ymarfer corff a llesiant, Grŵp Gofalwyr, grŵp darllen a gwasanaeth allgymorth gan Swyddfa'r Post – wedi rhoi'r llyfrgell wrth galon y gymuned, a nodwyd buddiannau iechyd a lles i bobl hŷn yn enwedig.
- Dysgu Oedolion – mae rhiant sengl a defnyddiwr llyfrgell rheolaidd wedi cael ei helpu gan ei llyfrgell leol i astudio gyda'r Brifysgol Agored. Mae'r llyfrgell yn darparu'r cyfleusterau TG a'r adnoddau gwybodaeth i'w galluogi i astudio, gyda staff y llyfrgell yn rhoi cymorth i ddysgu ac anogaeth. Mae ei theulu hefyd yn cymryd rhan mewn gweithgareddau yn y llyfrgell, gan roi amser iddi astudio. Mae'r llyfrgell wedi chwarae rôl allweddol i gefnogi ei dyhead i ddysgu, ac mae'n hwyluso amgylchedd dysgu unigryw.
- Clwb Gwaith – mae'r gwasanaeth wedi ehangu ei ystod o weithgareddau, er mwyn ateb galw cynyddol am gymorth digidol, i ddod o hyd i wybodaeth am fudd-daliadau, swyddi, a meysydd eraill o angen ar-lein. Gan weithio gyda sefydliad partner a gwirfoddolwyr hyfforddedig, mae pob llyfrgell yn cynnig clybiau gwaith a sesiynau galw heibio digidol yn rheolaidd. Mae'r gwasanaeth llyfrgell yn chwarae rôl allweddol iawn i helpu pobl nad oes ganddynt fawr ddim gwybodaeth o TG i fodloni gofynion Credyd Cynhwysol, mewn amgylchedd cefnogol ac anffurfiol.
- Gwasanaeth Dosbarthu i'r Cartref – yn darparu gwasanaethau arbenigol i gwsmeriaid sy'n gaeth i'r tŷ a'r rhai sydd â nam ar eu golwg, gan helpu i fynd i'r afael ag unigedd ac ynysu cymdeithasol. Mae adborth defnyddwyr yn dangos pwysigrwydd y gwasanaethau hyn i unigolion a'u teuluoedd.

2.4 Dangosyddion perfformiad a meincnodau ansawdd

Nid oes targedau i'r dangosyddion sy'n weddill, ond maent yn fodd i wasanaethau fonitro a meincnodi eu perfformiad dros amser, a chymharu ag awdurdodau eraill. Mae'r tabl canlynol yn crynhoi safle Blaenau Gwent ar gyfer 2018/19. Mae safle'r awdurdod wedi'i roi allan o 22, sef 1 yw'r uchaf a 22 yw'r awdurdod sydd â'r sgôr isaf, oni nodir yn wahanol. Mae dangosyddion lle mae llai na 22 awdurdod wedi cyflenwi data ar eu cyfer yn ddangosyddion lle nad oedd yr elfennau data perthnasol ar gael i rai awdurdodau. Mae ffigurau o flwyddyn gyntaf y chweched fframwaith neu arolygon blaenorol perthnasol hefyd wedi'u cynnwys at ddibenion cymharu. Caiff dangosyddion 'y pen o'r boblogaeth' eu cyfrifo fesul 1,000 o'r boblogaeth oni nodir fel arall.

Dangosydd perfformiad	Safle	Isaf	Canolrif	Uchaf	2017/18
DA 1 – Gwneud gwahaniaeth					[Fframwaith 5]
a) % yr oedolion sy'n credu bod defnyddio'r llyfrgell wedi'u helpu i ddatblygu sgiliau newydd	dd/b	24%	82%	96%	90%
c) iechyd a lles	dd/b	33%	62%	94%	94%
d) lle diogel a chroesawgar	dd/b	90%	97%	100%	98%
DA 2 – Boddhad cwsmeriaid					[Fframwaith 5]
a) dewis 'da iawn' neu 'da' o lyfrau	dd/b	81%	91%	98%	88%
b) gofal cwsmeriaid 'da iawn' neu 'da'	dd/b	93%	99%	100%	99%
c) cyfleusterau TG 'da iawn' neu 'da'	dd/b	65%	91%	95%	

d) 'da iawn' neu 'da' yn gyffredinol	dd/b		93%	97%	99%	98%
e) sgôr allan o ddeg gan ddefnyddwyr 16 oed ac iau	dd/b		8.5	9.3	9.5	9.4
DA 5 – Hyfforddiant i ddefnyddwyr						
a) mynychwyr y pen o'r boblogaeth	22	19/22	13	30	208	17
c) hyfforddiant anffurfiol y pen o'r boblogaeth	269	9/22	15	199	433	259
DA 6 – Mynychwyr mewn digwyddiadau y pen o'r boblogaeth						
	299	11/22	91	295	689	275
DA 8 – Defnyddio'r llyfrgell¹						
a) ymweliadau y pen o'r boblogaeth	4,234	7/22	2,596	3,969	7,170*	4,123
b) rhith-ymweliadau y pen o'r boblogaeth	353	21/22	345	885	2,205	311
c) benthycwyr gweithredol y pen o'r boblogaeth	80	21/22	58	150	251	100
DA 10 – Benthyciadau Cymraeg y pen o'r boblogaeth²						
	95	22/22	95	602	1,424	73
DA 11 – Mynediad ar-lein						
b) cyfrifiaduron y pen o'r boblogaeth ³	9	12/22	5	10	14	9
c) % yr amser sydd ar gael i'w defnyddio gan y cyhoedd	33%	=4/22	14%	25%	63%	37%
DA 13 – Lefelau staffio a chymwysterau						
(v) a) cyfanswm gwirfoddolwyr	23	15/21	3	30	214	29
b) cyfanswm oriau gwirfoddolwyr	2,111	6/21	90	1,477	9,806	2,406
DA 14 – Gwariant gweithredol						
a) cyfanswm gwariant y pen o'r boblogaeth	£8,610	20/22	£7,181	£12,145	£19,449	£8,228
b) % ar staff	73%	6/22	47%	62%	78%	75%
% ar adnoddau gwybodaeth	8%	21/22	8%	13%	21%	4%
% ar offer ac adeiladau	8%	5/22	0.4%	4%	25%	4%
% ar gostau gweithredol eraill	11%	15/22	0.3%	16%	37%	18%
c) gwariant cyfalaf y pen o'r boblogaeth	£0	=17/22	£0	£467	£8,829	£0
DA 15 – Cost net am bob ymweliad						
	£1.25	21/22	£1.18	£1.82	£2.52	£1.27
DA 16 – Oriau agor⁴						
(iii) a) % oriau cau manau gwasanaeth sefydlog heb gynllunio gwneud hynny	0.00%	=1/22	0.00%	0.00%	0.25%	0.00%
b) % arosfannau'r llyfrgell deithiol / danfon i'r cartref a fethwyd	0.00%	=1/20	0.00%	0.28%	7.99%	0.00%

¹ rhoddir seren wrth ymyl ffigurau ar gyfer gwasanaethau sydd wedi'u cyd-leoli; mae perfformiad y gwasanaethau hyn yn debygol o adlewyrchu'r ffaith bod mwy o bobl yn ymweld â nhw, ac felly ni ellir eu cymharu'n uniongyrchol â darpariaeth llyfrgell ar wahân

² fesul 1,000 o'r boblogaeth breswyl sy'n siarad Cymraeg; ffigurau o adroddiadau 2017/18 wedi'u cywiro yn dilyn gwall cyfrifo

³ fesul 10,000 o'r boblogaeth breswyl ⁴ Mae'r safleoedd yma wedi'u troi i'r gwrthwyneb, felly 1 yw'r awdurdod â'r sgôr isaf (yr awdurdod sy'n perfformi)

3 Dadansoddi perfformiad

Mae'r hawliau craidd a'r dangosyddion ansawdd wedi'u rhannu yn bedwar maes allweddol. Mae'r adran hon yn yr adroddiad yn amlinellu perfformiad yn y meysydd hyn, ac yn cymharu'r perfformiad hwn â blwyddyn gyntaf y chweched fframwaith (2017/18).

3.1 Ateb anghenion cwsmeriaid (DA 1-5)

Nid yw gwasanaeth Blaenau Gwent wedi cynnal ei arolygon o ddefnyddwyr eto, y dylid eu cynnal o leiaf unwaith yn ystod y fframwaith; bwriedir eu cynnal yn ystod hydref 2019.

Mae'r gwasanaeth yn parhau i roi ystod lawn o gymorth ar gyfer datblygiad unigol, a

chymorth da ar gyfer iechyd a lles, ond nid yw grwpiau darllen ar y cyd na chlybiau llyfrau yn cael eu darparu ym mhob llyfrgell mwyach. Mae'r niferoedd sy'n mynychu sesiynau hyfforddiant a drefnwyd ymlaen llaw ac sy'n cael hyfforddiant anffurfiol hefyd wedi gwella, gyda ffocws penodol ar lythrennedd digidol a llythrennedd gwybodaeth.

3.2 Mynediad a defnydd (DA 6-8)

Mae Blaenau Gwent yn parhau i gyflawni'r targed ar gyfer mynediad hawdd at fannau gwasanaeth, ac yn cynnig ystod estynedig o ddigwyddiadau a gweithgareddau, gan gynnwys darpariaeth i ddefnyddwyr sydd â gofynion arbennig. Mae'r niferoedd sy'n mynychu yn y maes hwn (DA 6) wedi cynyddu, a hefyd lefelau cyffredinol ymwelwyr, ar gyfer ymweliadau ffisegol a rhith-ymweliadau. Mae aelodaeth llyfrgell hefyd wedi parhau ar lefel debyg i 2017/18. Fodd bynnag, mae nifer y benthycwyr gweithredol wedi lleihau, ond nodir nad yw'r ffigurau o ran hyn yn cynnwys defnyddwyr cyfrifiaduron personol na defnyddwyr sydd ond yn defnyddio adnoddau electronig. Er bod nifer y llyfrau i oedolion a fenthycir wedi cynyddu, sy'n adlewyrchu'n dda ar fwy o fuddsoddiad mewn llyfrau, mae nifer y llyfrau i blant a fenthycir wedi parhau i leihau, ac o dipyn. Yn gyffredinol, mae perfformiad Blaenau Gwent o ran nifer y llyfrau a fenthycir yn dal ymhlith yr isaf y pen o'r boblogaeth yng Nghymru. Nodir cynnydd da yn nifer yr eitemau clyweledol a fenthycir, sy'n adlewyrchu galw cynyddol am lyfrau llafar drwy'r gwasanaeth dosbarthu i'r cartref, gyda'r perfformiad o ran hyn dipyn yn uwch na'r lefel ganolrifol. Mae'r gwasanaeth bellach yn rhoi mynediad at adnoddau drwy Borrowbox, ac mae'n mynd ati i hyrwyddo'r defnydd a wneir ohono yn y maes hwn.

3.3 Cyfleusterau a gwasanaethau (DA 9-12)ⁱ

Er bod y gwasanaeth yn dal i fethu â chyflawni'r targedau ar gyfer cyfanswm yr eitemau a gaffaelwyd ac adnoddau Cymraeg mae'r buddsoddiad yn y gronfa lyfrau wedi cynyddu yn 2018/19, sydd i'w groesawu. Fodd bynnag, mae lefelau buddsoddi yn y gyllideb ar gyfer deunyddiau yn dal i fod ar y lefel isaf yng Nghymru, a gellir gweld effeithiau hyn yn y perfformiad gwan o ran llyfrau a fenthycir, ac erys hwn yn faes y dylai'r Ymddiriedolaeth a'r awdurdod lleol ei ystyried yn ofalus. Mae'r perfformiad o ran mynediad ar-lein yn dal yn agos i'r lefel ganolrifol, gyda'r defnydd cofnodedig o TGCh ymhlith yr uchaf yng Nghymru, ond mae'r gwasanaeth yn nodi bod y defnydd o TGCh wedi lleihau yn unol â galw cynyddol am ddarpariaeth Wi-Fi mewn llyfrgelloedd. Mae'r gwasanaeth yn parhau i gyflawni'r targedau ar gyfer cyflenwi ceisiadau.

3.4 Arbenigedd a chapasiti (DA 13-16)

Mae lefelau staffio wedi cynyddu ychydig, ond maent yn dal ymhlith yr isaf y pen o'r boblogaeth yng Nghymru. O ganlyniad, mae'r gwasanaeth yn dibynnu'n fawr ar gyfraniad staff o feysydd eraill yr Ymddiriedolaeth, y cyngor a sefydliadau partner i helpu i ddarparu gwasanaethau. Mae staffio proffesiynol yn faes sy'n achosi pryder penodol, a bellach dim ond un aelod o staff sydd â chymwysterau proffesiynol (Rheolwr y Gwasanaethau Llyfrgell), ar ôl diswyddo gorfodol deiliad swydd cymwysedig arall; sy'n codi pryderon am gadernid y gwaith o arwain a chynllunio'r gwasanaeth. Mae'r gwasanaeth yn parhau i gyflawni'r targed ar gyfer cyfran amser y staff a dreulir mewn datblygiad proffesiynol / personol, ac i gael budd o waith ei wirfoddolwyr; gyda 23 o unigolion yn rhoi 92 o oriau o'u hamser yr un ar gyfartaledd.

Mae cyfanswm y gwariant refeniw wedi cynyddu ychydig o gymharu â 2017/18, ond mae gwariant y pen yn dal ymhlith yr isaf yng Nghymru. Nid yw cyfanswm yr oriau agor blynyddol wedi newid, ac mae'r targed o ran hyn yn cael ei gyflawni. Ni nododd Blaenau

Gwent unrhyw oriau agor heb staff, cau mannau gwasanaeth sefydlog heb gynllunio hynny na cholli dosbarthiadau i'r cartref yn ystod 2017/18.

4 Cyd-destun strategol

Fel rhan o'r datganiad, gofynnir i'r awdurdodau roi gwybod sut mae'r gwasanaeth llyfrgell yn cyfrannu at flaenoriaethau a nodau strategol ehangach Llywodraeth Cymru. Mae Blaenau Gwent yn rhoi adroddiad da ar nifer o wasanaethau sy'n berthnasol i nodau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, gan nodi dull rhagweithiol o weithio mewn partneriaeth fel yr allwedd i sicrhau y gall y gwasanaeth barhau i gyflawni dros y gymuned leol. Mae'r bartneriaeth â Banc NatWest wedi parhau, ac mae'r partneriaid newydd yn cynnwys Swyddfa'r Post, sy'n darparu sesiynau allgymorth teithiol wythnosol sy'n cynnal gwasanaeth cymunedol, gan gyfrannu at gyflawni Cymru fwy cydnerth. Mae gwasanaethau eraill yn cefnogi agendâu iechyd a lles, cyfle cyfartal, cynhwysiant digidol, a gweithgarwch Cymraeg a diwylliannol.

5 Cyfeiriad i'r dyfodol

Yn ei adroddiad ar gyfeiriad yr awdurdod yn y dyfodol a'i gynlluniau ar gyfer y gwasanaeth llyfrgell dros y flwyddyn ganlynol, mae Blaenau Gwent yn nodi'r ffordd y mae'r gwasanaeth yn dal wrth wraidd cynlluniau darparu gwasanaethau'r awdurdod lleol a'r Ymddiriedolaeth. Mae ymrwymiad o hyd i ystyried y potensial i gyd-leoli gwasanaethau ymhellach, gan adeiladu ar y modelau cynaliadwy, llwyddiannus sy'n gweithredu yn Nhredegar a Brynmawr. Yn ystod 2019, bydd yr awdurdod lleol yn cynnal adolygiad o'r holl wasanaethau a ddarperir gan Ymddiriedolaeth Hamdden Aneurin er mwyn pennu cyfeiriad strategol clir i'r Ymddiriedolaeth yn y dyfodol. Bwriedir cwblhau'r adolygiad hwn yn ystod hydref 2019; bydd ei ganfyddiadau'n allweddol i sicrhau cynaliadwyedd y gwasanaeth yn y dyfodol a'i allu i ymateb i anghenion lleol.

6 Casgliad

Mae gwasanaethau llyfrgell ym Mlaenau Gwent yn cael eu darparu gan Ymddiriedolaeth Hamdden Aneurin ar ran yr awdurdod lleol, a'u nodi fel elfen allweddol o gynlluniau darparu gwasanaethau'r awdurdod lleol a'r Ymddiriedolaeth. Mae'r gwasanaeth yn parhau i gyflawni cryn dipyn dros ei gymunedau lleol, o ystyried ei gapasiti a'i adnoddau, gyda'r perfformiad yn 2018/19 yn parhau ar yr un lefel ar y cyfan, gyda gwelliannau mewn rhai meysydd allweddol; fel mewn blynyddoedd blaenorol, cefnogir y ddarpariaeth yn dda gan waith partneriaeth rhagweithiol a chadarn. Er gwaethaf mwy o fuddsoddiad yn y gwasanaeth eleni, sydd i'w groesawu, erys lefelau staffio ac adnoddau ar lefelau hynod o isel. Mae staffio proffesiynol, gydag un llyfrgellydd cymwysedig yn unig, ar ôl diswyddo gorfodol yr unig ddeiliad swydd arall â chymwysterau, yn achos pryder penodol o ran cadernid a pherfformiad y gwasanaeth. Mae'r adolygiad arfaethedig o'r ddarpariaeth o dan yr Ymddiriedolaeth yn cynnig cyfle i ystyried cyfeiriad ac adnoddau'r gwasanaeth llyfrgell, er mwyn sicrhau ei fod yn barod i fynd i'r afael â blaenoriaethau strategol a pharhau i ddiwallu anghenion ei gymunedau lleol.

¹Mae e-adnoddau a brynwyd drwy danysgrifiadau a ariennir yn ganolog wedi cael eu heithrio o'r ffigurau caffael ar gyfer DA 9 yn 2018/19 er mwyn sicrhau bod y safon yn adlewyrchu strategaeth, buddsoddiad a pherfformiad unigol yr awdurdod yn gywir. Mewn rhai achosion, mae hyn wedi effeithio ar gyflawniad yn erbyn y safon o gymharu â 2017/18. Mae Ffurflenni Ystadegau CIPFA yn parhau i gynnwys ffigurau ar gyfer adnoddau a gynhyrchir yn ganolog.